# Gwella Gyda'n Gilydd:

**Fersiwn Hawdd ei Darllen - Gwella Gyda'n Gilydd**


**This is also available to read in English**



# Cyflwyniad

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn helpu pobl cadw'n iach neu i drin pobl sy'n sâl neu wedi brifo.



Mae llawer o bethau heddiw sy'n ei gwneud hi'n anoddach i ni helpu pobl.




Rydyn ni wedi gwneud cynllun ar sut rydyn ni'n mynd i helpu gwella pethau.



Rydyn ni eisiau dweud wrthych chi am ein cynllun.


Mae yna bethau mawr rydyn ni eisiau delio â nhw.



Mae pobl ym Mhowys yn mynd yn hŷn, sy'n golygu bod angen mwy o help arnyn nhw.



Mae gan fwy o bobl lawer o wahanol bethau y mae angen cymorth arnyn nhw nawr.



Mae'r bobl sy'n helpu i wella pobl yn heneiddio hefyd.



Mae'n rhaid i rai pobl aros am amser hir i gael help gan ysbyty.

## Dyma rai o'r pethau rydyn ni eisiau gwneud:



Stopio pobl rhag mynd yn sâl yn y lle cyntaf drwy helpu pobl i gadw'n heini ac yn iach.



Gofalu am iechyd meddwl pobl sy'n sâl neu'n cael eu brifo.



Gweithio gyda sefydliadau eraill i helpu pobl sy'n agos at ddiwedd eu bywydau.



Cefnogi fferyllfeydd, deintyddion, optegwyr a meddygon lleol a'u timau.




Trin pobl ym Mhowys lle gallwn fel nad oes angen iddyn nhw fynd i ysbytai mawr sy’n bellach i ffwrdd.



Gadael i bobl gymryd rhai profion gartref fel nad oes angen iddyn nhw ddod i'r ysbyty.



Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod sut i gadw'n iach ar ôl llawdriniaeth.



Cael llawdriniaethau yn ysbytai Powys fel y gall pobl fynd adref yr un diwrnod.



Helpu pobl gwella o lawdriniaethau gartref.



Gofyn i bobl beth maen nhw ei eisiau fel y gallwn ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio.



Dod â phobl hen ac ifanc at ei gilydd.



Defnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd i helpu gydag iechyd a gofal.



Cael cymysgedd o staff sy'n gallu gwneud pethau gwahanol.

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl!



Gallwch chi ddweud wrthym beth rydych chi'n meddwl sy'n dda ac yn ddrwg gyda gwasanaethau iechyd.



Gallwch ddweud wrthym eich syniadau am sut i'w gwella.



Byddwn yn gwrando ac yn ceisio gwneud newidiadau a fydd yn gfhelpu. Peidiwch ag anghofio llenwi'r arolwg.